Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA-JJ-0436-21

John Griffiths AS
Cadeirydd,
Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymenedau

17 Chwefror 2021

Annwyl John,

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Chwefror yn rhoi cyfle i mi roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y cynnydd a wnaed yn ystod tymor y Senedd hon i atal digartrefedd yng Nghymru, ac yn arbennig ein hymateb yn ystod pandemig Covid-19.

Mae'r pandemig wedi dod â heriau cwbl eithriadol ar ein traws, na welwyd mo'u tebyg o'r blaen, ac rydym wedi gweld ymateb anhygoel ar ran gwasanaethau digartrefedd i gadw pobl yn ddiogel. Felly, yn gyntaf, hoffwn achub ar y cyfle hwn i dalu teyrnged i ymdrechion aruthrol a gwaith caled parhaus pob awdurdod lleol, sefydliad trydydd sector a phartneriaid allweddol eraill i gefnogi rhai o'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas. Mae rhai pobl wirioneddol arbennig yn gweithio ym maes digartrefedd a gwasanaethau cymorth tai, ac rydym yn ddiolchgar tu hwnt iddynt.

Wrth gwrs, mae'r ffaith bod COVID-19 yn dal i ledaenu ac i'n bygwth yn parhau i godi heriau penodol i'r rhai sy'n cysgu ar y stryd, neu sydd mewn perygl o hynny, a'r rhai sydd mewn llety dros dro annigonol. Ein blaenoriaethau allweddol ym maes tai, drwy gydol y pandemig hwn felly fu atal digartrefedd, a chynorthwyo'r rhai sy'n ddigartref neu mewn llety heb ddiogelwch, i sicrhau eu bod yn gallu dilyn cyngor iechyd y cyhoedd mewn perthynas ag ynysu cymdeithasol a chadw pellter cymdeithasol, diogelu eu hunain a chyfyngu ar y risg o heintio ehangach.

**Ymateb Brys i Ddigartrefedd yng nghyd-destun Covid-19**

Ar ddechrau'r pandemig, fe'i gwnes yn eglur y dylid darparu llety argyfwng i bawb sy'n cysgu ar y stryd neu mewn llety dros dro anaddas, ynghyd â'r cymorth y mae arnynt ei angen. Ym mis Mawrth a mis Ebrill 2020, cyhoeddwyd canllawiau clir gennym, yn rhai statudol ac anstatudol, i awdurdodau lleol yn nodi ein dull cynhwysol o gefnogi pawb i gael llety priodol. Roedd hyn hefyd yn cynnwys y rheini Nad Oes Ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus yn benodol, gan ofyn i awdurdodau lleol ddibynnu ar bwerau a chyllid amgen i gadw pawb yn ddiogel yn ystod yr argyfwng iechyd cyhoeddus hwn.

Er mwyn ei gwneud yn bosibl i awdurdodau lleol gyflawni'r nod polisi hwn, darperais gyllid ychwanegol o £10 miliwn i awdurdodau lleol i ddechrau, drwy'r Gronfa Galedi, i hwyluso

lefelau priodol o gymorth, ac i roi llety i bobl sy'n agored i niwed a phobl sydd wedi'u dadleoli. Ym mis Awst cyhoeddais gynnydd o £264 miliwn yn y Gronfa Galedi Frys i Awdurdodau Lleol i gynorthwyo awdurdodau lleol i baratoi ar gyfer misoedd y gaeaf, ac roedd hyn yn cynnwys cyllid i barhau â'n hymateb brys i ddigartrefedd. Felly, mae ein dull gweithredu wedi bod ar waith yn barhaus ers y cyfyngiadau symud cyntaf ac mae awdurdodau lleol wedi gallu cael gafael ar gyllid i'w gefnogi ar sail eu hanghenion. Ar gyfartaledd, mae awdurdodau lleol yn hawlio £1.6m y mis i gefnogi'r dull gweithredu cynhwysol hwn, a fyddai'n cyfateb i £20 miliwn yn ychwanegol yn ystod y flwyddyn.

Mae'r dull hwn wedi bod yn hynod lwyddiannus gyda bron i 6,000 o bobl yn cael llety argyfwng ers mis Mawrth, ynghyd â'r cymorth sydd ei angen arnynt i gadw'n ddiogel. Mae'r cyllid wedi galluogi awdurdodau lleol i sicrhau llety addas ac i symud oddi wrth ddefnyddio llochesi nos dros dro. Rwyf wedi bod yn glir na ddylid defnyddio llochesi nos dros dro gan fod tystiolaeth yn dangos yn glir bod lleoliadau cymunedol o'r fath yn peri risg i ddefnyddwyr y gwasanaethau ac i staff sy'n gweithio ynddynt.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi bod yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol ers dechrau'r cyfyngiadau cyntaf ar symud, i gynnig cefnogaeth a chymorth yn y gwaith o nodi a chaffael llety ychwanegol lle bo angen. Mae'r cydweithio agosach hwn wedi bod o fudd mawr i Lywodraeth Cymru ac i awdurdodau lleol, ac o ganlyniad mae swyddog penodol bellach wedi'i neilltuo i dîm digartrefedd pob awdurdod lleol i helpu i fwrw ymlaen â'r agenda hon.

**Cam 2 yr ymateb i ddigartrefedd**

Er mwyn adeiladu ar y cynnydd a wnaed yn ystod yr ymateb cychwynnol i'r pandemig, ac i sicrhau nad oes angen i neb fynd yn ôl i gysgu ar y stryd, cyhoeddais gam nesaf ein hymateb i ddigartrefedd yn ystod haf 2020. Cyhoeddwyd fod hyd at £50 miliwn ychwanegol ar gael i gynorthwyo â’r cam nesaf hwn a gofynnwyd i awdurdodau lleol ddatblygu cynlluniau Cam 2 er mwyn gwneud cais am y cyllid hwn. Cyhoeddwyd canllawiau cynllunio clir gennym i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddatblygu eu cynlluniau Cam 2. Cafodd y canllawiau eu llywio gan waith ac argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd i sicrhau ein bod nid yn unig yn ystyried y gofynion tymor byr, ond hefyd yn manteisio ar y cyfle i ddechrau'r newid trawsnewidiol sydd ei angen i symud tuag at ailgartrefu cyflym yng Nghymru.

Cyflwynodd Awdurdodau Lleol gynlluniau sy'n sail i sut y maent yn bwriadu meithrin capasiti ychwanegol i gefnogi'r trawsnewid hwn. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid, £40 miliwn, yn gyfalaf ac mae'n cefnogi tua 70 o brosiectau a fydd yn darparu cartrefi newydd, yn rhai dros dro a rhai parhaol. Ein nod ar y cyd yw sicrhau bod pawb a roddwyd mewn llety dros dro gennym yn cael eu symud ymlaen i gartref parhaol.

**Y rheini Nad Oes Ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus**

Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn parhau i ddarparu llety i’r rheini Nad Oes Ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus oherwydd yr argyfwng iechyd cyhoeddus hwn. Yn y cyfamser, rydym yn parhau â'n gwaith gyda nifer o sefydliadau'r trydydd sector i gefnogi datblygu ymhellach gynlluniau llety yng Nghymru ar gyfer y rheini Nad Oes Ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus. Mae dau brosiect tymor byr ar raddfa fach wedi'u hariannu yng Nghaerdydd ac Abertawe i ehangu a phroffesiynoli gwasanaethau sy'n bodoli eisoes. Rydym yn bwriadu atgyfnerthu ein gwaith yn y maes hwn yn ddiweddarach yn 2021. Rydym hefyd yn parhau i ariannu Asylum Justice i sicrhau bod y rhai sydd â siawns realistig o sicrhau eu statws mewnfudo yn cael eu cefnogi i wneud hynny.

Ers mis Tachwedd 2020, rydym wedi bod yn gweithio gyda'r Rhwydwaith cefnogi'r rheini Nad Oes Ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus i ddarparu hyfforddiant ar hawliau mudwyr i staff awdurdodau lleol ledled Cymru. Erbyn mis Mawrth, bydd 400 o swyddogion wedi cael eu hyfforddi ar faterion yn amrywio o gymorth i'r rheini Nad Oes Ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus, i statws Preswylwyr Sefydlog a Chyn-sefydlog i Ddinasyddion yr UE. Yn ddiweddarach eleni byddwn hefyd yn cyhoeddi canllawiau i awdurdodau lleol ynghylch sut y gallant gefnogi unigolion Nad Oes Ganddynt Hawl i Gyllid Cyhoeddus.

Er ein bod yn parhau i ddibynnu ar bwerau cyfreithiol amgen yn ystod y pandemig hwn, yn y tymor hwy rydym yn parhau i fod yn ddarostyngedig i'r cyfyngiadau a osodir gan ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU.

**Casglu Data**

Mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio'n agos ag awdurdodau lleol gydol y pandemig, gan gynnwys casglu gwybodaeth reoli er mwyn magu dealltwriaeth o faint o bobl sy'n cael eu cefnogi gan yr ymateb digartrefedd brys. Roedd hyn yn cynnwys cyhoeddi gwybodaeth reoli ad hoc ym mis Mehefin a mis Gorffennaf. O fis Awst 2020 ymlaen, cafodd y gwaith o gasglu data ei ffurfioli'n gasgliad misol newydd o ddata gwybodaeth reoli. Mae'r casgliad hwn yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am yr ymateb i ddigartrefedd, gan gynnwys y niferoedd sy'n cael eu symud i lety parhaol bob mis a'r nifer sy'n dal i fod mewn llety dros dro ar ddiwedd pob mis. Dylid nodi, fodd bynnag, mai gwybodaeth reoli yw'r data misol o hyd a'i fod yn ddibynnol ar nifer o gafeatau, gan gynnwys ynghylch cymharedd y data o fis i fis. Cesglir y data ar lefel gyfanredol ac felly nid yw'n bosibl olrhain unigolion.

Cyhoeddwyd y data misol am y tro cyntaf ar 5 Tachwedd 2020. Bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno nodi ein bod, ers 4 Chwefror 2021, wedi dechrau cyhoeddi'r data ar gysgu ar y stryd yn yr wybodaeth reoli fisol, fesul awdurdod lleol (o fis Tachwedd ymlaen). Cyhoeddir y data ar gyfer mis Tachwedd a misoedd blaenorol yma: https://llyw.cymru/darpariaeth-llety-digartrefedd-chysgu-allan.

Gan fod hwn yn gasgliad o ddata newydd, sydd wedi'i ddatblygu'n gyflym yn ystod y pandemig hwn, rydym yn parhau i weithio gydag awdurdodau lleol i benderfynu sut y gall hyn lywio ein hystyriaethau ehangach a'n gwaith ar data digartrefedd yn y dyfodol. Mae'r gwaith ehangach hwn wedi arafu o reidrwydd oherwydd y pandemig, gan fod ein hymdrechion wedi'u canolbwyntio ar ddeall yr ymateb brys. Fodd bynnag, bydd y casgliadau data yn ystod y pandemig yn darparu dealltwriaeth a gwersi gwerthfawr iawn a fydd yn llywio'r datblygiadau nesaf yn y gwaith ehangach hwn.

**Gweithio'n amlasiantaethol**

Elfen gref yn ein hymateb, fel y nodir yn ein holl ganllawiau, yw pwysigrwydd ymateb yn amlasiantaethol ac mae ein cyllid wedi cefnogi cymorth cofleidiol yn benodol yn ogystal â llety. Rydw i eisoes wedi trafod gyda'r Pwyllgor rôl bwysig gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn y maes hwn.

Sefydlwyd grŵp Archwilio Manwl i Gamddefnyddio Sylweddau i helpu i symud tri maes gweithredu allweddol ymlaen: gwella'r canlyniadau i unigolion sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl ar yr un pryd; cefnogi dileu rhwystrau gweithredol sy'n atal cynnydd y polisi a'r gwaith o'i weithredu; a sicrhau bod llywodraethiant priodol, gan gynnwys llywodraethiant clinigol, ar waith i gefnogi cynnydd.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r grŵp sy'n edrych yn fanwl ar Gamddefnyddio Sylweddau ac Iechyd Meddwl ar 14 Rhagfyr 2020; diben y cyfarfod oedd adolygu'r cynllun gwaith ar gyfer yr

archwiliad manwl.  Oherwydd y pandemig cydnabuwyd fod amserlenni ar y camau gweithredu wedi llithro, ac mae'r cynllun gwaith bellach yn cael ei adolygu i gasglu camau gweithredu ychwanegol ac i ailasesu blaenoriaeth y camau hynny.  Unwaith y bydd yr adolygiad hwn wedi'i gynnal, bwriedir cynnal cyfarfod pellach.  Cadeirydd y grŵp yw’r Dirprwy Gyfarwyddwr Iechyd Meddwl, Camddefnyddio Sylweddau a Grwpiau Agored i Niwed ac mae'r tîm atal Digartrefedd yn cydweithio â'r grŵp i sicrhau bod timau amlddisgyblaethol yn cefnogi unigolion i fynd i'r afael â'u hanghenion mewn llety dros dro, ac yn helpu i gynnig gwell mynediad at wasanaethau cyhoeddus.

**Atal Digartrefedd**

Er bod ein hymateb, o reidrwydd, wedi canolbwyntio'n glir ar y rhai sydd eisoes yn ddigartref, nid ydym wedi colli golwg ar bwysigrwydd y gwaith o atal digartrefedd yn y lle cyntaf. Mae'r pandemig wedi arwain at heriau i lawer o bobl, ac yn enwedig felly, at galedi economaidd. Rydym wedi rhoi nifer o newidiadau deddfwriaethol ar waith â'r nod o gadw pobl yn eu cartrefi a hefyd lliniaru'r pwysau ar wasanaethau cymorth rheng flaen fel timau digartrefedd awdurdodau lleol.

Mae'r newidiadau deddfwriaethol wedi canolbwyntio ar ddau fater: cynyddu'r rhybudd y mae'n ofynnol i landlordiaid ei roi wrth ddechrau'r broses troi allan ac, yn ystod y cyfnodau pan fo heintio ar ei waethaf, atal beilïaid rhag gorfodi troi pobl allan. Gosodwyd cyfnodau rhybudd o dri mis yn wreiddiol, o dan Ddeddf Coronafeirws 2020. Gan ddefnyddio pwerau y darperir ar eu cyfer yn Neddf 2020, mae cyfnodau rhybudd o chwe mis wedi’u pennu ar hyn o bryd, ac eithrio achosion sy’n ymwneud ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig (gweler fy natganiad llafar ar 15 Medi 2020). Daw'r rheoliadau presennol ynghylch cyfnodau rhybudd i ben ar 31 Mawrth 2021 ac mae natur unrhyw reoliadau pellach y bydd eu hangen yn cael ei ystyried ar hyn o bryd.

Gwnaed rheoliadau sy'n atal troi allan i ategu ymrwymiad gan Lywodraeth y DU na fyddai troi allan yn cael ei orfodi yn ystod cyfnodau o gyfyngiadau symud lleol neu dros gyfnod y Nadolig (unwaith eto cynhwyswyd eithriadau mewn perthynas ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais domestig). Daeth y rheoliadau cychwynnol, a wnaed o dan Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, i ben ar 11 Ionawr ond gwnaed rheoliadau pellach sy'n parhau â'r diogeliad hwn. Adolygwyd yr angen am y rheoliadau pellach hyn ar 18 Ionawr a phenderfynwyd y dylid eu cadw. Cyhoeddwyd Datganiad Gweinidogol Ysgrifenedig i'r perwyl hwnnw. Bydd y rheoliadau'n dod i ben ar 31 Mawrth 2021 ar hyn o bryd ond cynhelir adolygiadau pellach fesul tair wythnos hyd hynny. Unwaith eto, bydd penderfyniad yn cael ei wneud yn nes at yr amser pa un oes angen diogeliad o'r fath y tu hwnt i 31 Mawrth.

Yn anffodus, mae'n debygol y bydd llawer o bobl yn cael trafferth talu rhent wrth i'r pandemig barhau. Mae swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda rhanddeiliaid yn y sector rhentu preifat a'r sector tai cymdeithasol i fonitro'r sefyllfa ac i ddeall ble a sut y gallai fod angen mesurau lliniaru neu ymyriadau pellach a lle y byddai’r rheini’n bosibl.

Mae ymrwymiad parhaus ar ran landlordiaid tai cymdeithasol i beidio â throi unrhyw un allan sydd ag ôl-ddyledion oherwydd caledi ariannol o ganlyniad i'r pandemig. Mae'r holl landlordiaid hefyd wedi cytuno ar egwyddorion a phrotocolau sy’ncanolbwyntio ar yr unigolyn i denantiaid sydd mewn helbul.

Yr egwyddorion, a ategir gan brotocolau manylach, yw:

• cadw tenantiaid yn ddiogel yn eu cartref,
• helpu tenantiaid i gael y cymorth ariannol sydd ei angen arnynt,

• cefnogi tenantiaid a dod o hyd i atebion os ydynt yn cael anhawster talu rhent, a
• gwneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi lles tenantiaid.

Ochr yn ochr â'r newidiadau deddfwriaethol, mae dau gynllun wedi'u rhoi ar waith i gefnogi tenantiaid a landlordiaid yn y sector rhentu preifat drwy'r pandemig:

• Mae'r Cynllun Rhybudd Cynnar ar gyfer ôl-ddyledion rhent a dyledion eraill yn y sector rhentu preifat, a ddarperir gan Cyngor ar Bopeth Cymru, yn cefnogi'r sector rhentu preifat drwy roi llwybr ychwanegol i denantiaid i gael y cyngor a'r cymorth sydd eu hangen arnynt i nodi sut y gallant wneud y mwyaf o'u hincwm a rheoli eu hymrwymiadau ariannol. Yn ogystal, bydd yn helpu tenantiaid i sefydlu cynlluniau ad-dalu fforddiadwy gyda'u landlord neu asiant gosod tai i fynd i'r afael ag ôl-ddyledion rhent a lleihau'r risg y byddant yn colli eu cartrefi.

• Cyhoeddais hefyd y Cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth - cynllun benthyciadau gwerth £8 miliwn i helpu tenantiaid yn y sector rhentu preifat sydd ag ôl-ddyledion rhent, neu sy'n ei chael yn anodd talu eu rhent o ganlyniad i Covid-19. Telir y benthyciadau i landlordiaid ar ran tenant sy'n gwneud cais, a byddant ar gael ar log cyfradd ganrannol flynyddol o 1%. Byddant yn cael eu had-dalu dros gyfnod o hyd at 5 mlynedd, a fydd yn gwneud ad-daliadau'n fforddiadwy.  Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun ar gael yma.

Erbyn yr wythnos a ddaeth i ben ar 3 Ionawr 2021, roedd 24 o fenthyciadau wedi'u cymeradwyo am gyfanswm o £47,054. Mae hyn yn golygu taliad cyfartalog cymedrig o £1,961 fesul ymgeisydd llwyddiannus. Gwneir y taliad yn uniongyrchol i'r landlord gan Undeb Credyd, ar ran yr ymgeisydd.

Er bod llif y bobl sy'n manteisio ar y cynllun yn arafach na'r disgwyl, rydym wrthi'n adolygu opsiynau ar gyfer ehangu ei gwmpas. Nid y cynllun Benthyciad Arbed Tenantiaeth yw'r unig opsiwn sydd ar gael o ran cymorth. Rydw i wedi ymrwymo i barhau i adolygu'r sefyllfa ac wedi gofyn i swyddogion adolygu gwaith yn agos gyda grwpiau sy'n cynrychioli tenantiaid a rhai sy’n cynrychioli landlordiaid er mwyn sicrhau bod y ddwy farn yn cael sylw dyledus. Er bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i leihau achosion digartrefedd posibl, mae hefyd yn deall y gallai rhai landlordiaid hefyd fod yn dygymod ag amgylchiadau anodd hefyd.

Yn ogystal â'r cynlluniau uchod, mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu amrywiaeth o ganllawiau ar gyfer landlordiaid a thenantiaid, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch lle gall tenantiaid a landlordiaid gael cymorth, ariannol neu fel arall, mewn perthynas â thai.

Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda llawer o sefydliadau, gan gynnwys y rhai yn y trydydd sector ac mae'n ymwybodol bod pobl yn cael eu troi allan yn anghyfreithlon, gan landlordiaid didrwydded neu amheus, yn y rhan fwyaf o achosion. Rydym wedi bod wrthi'n gweithio gyda phartneriaid i godi ymwybyddiaeth o droi allan anghyfreithlon ac yn ystyried sut y gallwn fynd i'r afael â hyn. Mae Rhentu Doeth Cymru wedi diweddaru'r wybodaeth ar ei wefan i’w gwneud yn eglur beth yw’r broses gyfreithiol y dylai landlordiaid ei dilyn os ydynt yn bwrw ymlaen â chamau cyfreithiol. Mae’r sefydliad hefyd wedi sôn am y mater hwn ar ei gyfrifon ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae Shelter Cymru hefyd wedi sicrhau cyllid yn ddiweddar i weithio gyda’r sector tai yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau lleol, i ddatblygu a darparu dau gwrs e-ddysgu ar droi allan anghyfreithlon.

O dan Ddeddf Tai (Cymru) 2014, gall landlordiaid ddewis cael eu trwyddedu, neu benodi asiant trwyddedig. Mae trwyddedu yn cynnwys hyfforddiant gorfodol, a chwblhau prawf "Person Addas a Phriodol" yn llwyddiannus, sy'n gwirio addasrwydd ar gyfer cael trwydded, gan ystyried yn bennaf unrhyw euogfarnau troseddol perthnasol diweddar na chawsant eu

disbyddu. Mae trwyddedau'n para am bum mlynedd o'r dyddiad y'u cyhoeddir, ond maent yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.

Os bydd landlord yn ceisio troi tenant allan yn anghyfreithlon, gallai wynebu erlyniad, a gallai hynny beryglu ei drwydded i weithredu yng Nghymru. Drwy ddilyn proses Rhentu Doeth Cymru, mae tenantiaid yn elwa ar gael landlord neu asiant a ddylai fod yn ymwybodol o'i gyfrifoldebau cyfreithiol ac yn gweithredu'n unol â hwy. Mae Rhentu Doeth Cymru yn cynnig hyfforddiant ochr yn ochr â'r broses gofrestru a thrwyddedu, ac yn gohebu'n rheolaidd i helpu landlordiaid i gael y wybodaeth ddiweddaraf am eu rhwymedigaethau cyfreithiol.

Er bod Rhentu Doeth Cymru yn gyfrifol am orfodi landlordiaid a/neu asiantau nad ydynt wedi'u cofrestru neu eu trwyddedu, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am gymryd camau gorfodi yn erbyn landlordiaid a/neu asiantau sy'n troi pobl allan yn anghyfreithlon. Gwnânt hyn drwy'r swyddog cyswllt ar gyfer tenantiaeth neu'r adran dai a digartrefedd.

Mae Rhentu Doeth Cymru yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol i sicrhau y gellir cymryd camau gorfodi yn achos landlordiaid ac asiantau sy'n torri'r gyfraith, gan ddiogelu tenantiaid a gwella safonau yn y Sector Rhentu Preifat. Pan fo camau wedi'u cymryd yn erbyn landlord neu asiant mewn perthynas â safonau isel, mae'n bosibl i hynny arwain at ddirymu trwydded, ac mae hynny wedi digwydd.

O ran yr angen i ymestyn y cynnydd mewn cyfnodau rhybudd ar gyfer troi allan 'heb fai', rwy'n adolygu hyn yn rheolaidd, fel y gwnaf â'r holl bwerau sydd gennyf o dan Ddeddf Coronafeirws 2020. Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal ym mis Mawrth 2021 a byddaf yn ystyried y camau gweithredu cywir i'w cymryd yn unol â'r sefyllfa ar y pryd.

**Y camau nesaf**

Fel yr amlinellwch yn eich llythyr, cyhoeddwyd yr ymchwil annibynnol i newidiadau posibl i anghenion â blaenoriaeth ddiwedd y llynedd. Mae effaith pandemig covid-19 a'r nodyn cyfarwyddyd statudol a gyhoeddwyd gennym ym mis Ebrill, mewn perthynas ag anghenion â blaenoriaeth yn benodol, wedi cael effaith sylweddol wrth roi'r polisi ar waith yn ymarferol, a bydd angen ystyried hynny wrth feddwl am y camau nesaf. Er fy mod wedi bod yn eglur nad oes troi'n ôl, mae ein sylw presennol wedi'i hoelio ar yr ymateb parhaus i'r pandemig ac, o ystyried lle'r ydym arni yn nhymor y Senedd, mater i'r weinyddiaeth nesaf fydd gwaith diwygio deddfwriaethol yn y tymor hwy.

Tynnir sylw at yr angen posibl am ddiwygiadau deddfwriaethol yn argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd. Fel y nodwyd yn eich llythyr, rwyf eisoes wedi cytuno i'r holl argymhellion mewn egwyddor ac mae fy swyddogion wrthi'n datblygu Cynllun Gweithredu i fwrw ymlaen â'r rheiny, gan weithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol. Er bod effaith y pandemig wedi gohirio'r gwaith o ddatblygu a chyhoeddi cynllun gweithredu penodol, mae canllawiau a gyhoeddwyd yn ystod 2020/21 i gefnogi'r ymateb brys a'r camau dilynol wedi'u llywio gan ein Strategaeth ar gyfer Rhoi Diwedd ar Ddigartrefedd, a gyhoeddwyd yn 2019, ac argymhellion y Grŵp Gweithredu arbenigol ar Ddigartrefedd. Mae hyn wedi ein galluogi i sicrhau gyda'n gilydd nad yw ein hymateb brys yn ymwneud â gweithredu yn y tymor byr yn unig, ond ei fod hefyd yn helpu i gychwyn y gwaith trawsnewidiol sydd ei angen o ran darparu gwasanaethau tai a digartrefedd, er mwyn cyflawni ein nod o roi diwedd ar ddigartrefedd.

Ein blaenoriaeth ar gyfer gweddill tymor y Senedd hon yw parhau â'n hymateb i ddigartrefedd argyfyngus, a pharhau i gefnogi awdurdodau lleol a'u partneriaid allweddol i gyflawni cam nesaf yr ymateb hwnnw i sicrhau bod y rhai mewn llety dros dro yn gallu

symud ymlaen i gartrefi parhaol, fel rhan o’r broses o drawsnewid y ddarpariaeth digartrefedd.

Er nad ydym eto allan o'r pandemig, rydym yn cydnabod pwysigrwydd adeiladu ar y cynnydd a wnaed eleni. Mae'r flaenoriaeth uchel y mae Llywodraeth Cymru yn ei rhoi ar yr agenda hon yn amlwg yn y dyraniadau yn y gyllideb ddrafft, gyda chynnydd o £40 miliwn yn y Grant Cymorth Tai i £166.7 miliwn yn 2021/22. Mae hyn yn adlewyrchu pwysigrwydd y Grant Cymorth Tai fel y mecanwaith ariannu mwyaf allweddol ar gyfer atal digartrefedd, ac mae'n cydnabod lefel yr anghenion na chawsant eu diwallu o'r blaen a ddaeth i’r amlwg yn ystod y pandemig.

Fel yr amlinellir yn y gyllideb ddrafft, bwriad y cynnydd sylweddol hwn yw cefnogi'r broses drawsnewidiol sydd ei hangen i symud tuag at ddull o weithredu sy’n ailgartrefu pobl yn gyflym. Bydd hyn nid yn unig yn ei gwneud yn bosibl comisiynu darpariaeth gwasanaethau newydd, ond bydd hefyd yn caniatáu inni atgyfnerthu'r ddarpariaeth bresennol ac yn helpu i sicrhau bod gennym wasanaethau o ansawdd uchel sy'n ateb y galw'n well, yn unol ag argymhellion y Grŵp Gweithredu ar Ddigartrefedd.

Un llewyrch a ddeilliodd o'r pandemig ofnadwy hwn fu'r ymateb i ddigartrefedd, ac rydym wedi dysgu cymaint y gellir ei ddatblygu i sicrhau ein bod yn adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd hyd yma. Er enghraifft, mae'r cydweithio agosach ag awdurdodau lleol wedi golygu ein bod wedi gallu defnyddio profiadau'r rhai sydd ar reng flaen ein hymateb i ddigartrefedd yn well, er mwyn llywio'r broses o lunio polisïau a gwneud penderfyniadau mewn modd llawer mwy ymatebol a hyblyg. Rydym wedi ailstrwythuro ein tîm digartrefedd yn Llywodraeth Cymru i sefydlu'r dull hwn o weithredu at y dyfodol. Mae'r cais yn ein canllawiau cychwynnol i awdurdodau lleol ffurfio celloedd cydgysylltu â phartneriaid allweddol wedi arwain at welliannau mewn gwaith amlasiantaethol ac wedi meithrin partneriaethau cryfach ar gyfer y dyfodol.

Er ein bod yn cydnabod bod llawer i'w wneud o hyd, mae'r pandemig ofnadwy hwn wedi rhoi cyfle i ni gyflymu'r broses o weithredu ein strategaeth ddigartrefedd a'n symud yn nes at ein nod tymor hwy o roi diwedd ar ddigartrefedd.

Yn gywir

Julie James

**Julie James AS**
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol